

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol y Lawnt

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg



Mae Ysgol y Lawnt yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu cynnydd a chyflawniad yr holl ddisgyblion yn arbennig o effeithiol. Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth werthfawr y corff llywodraethol, yn cynnig arweinyddiaeth glir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion.



Mae ethos yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ar weledigaeth gytûn, sef hyrwyddo Cymreictod, cwrteisi a chyfrifoldeb. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cryf iawn tuag eu dysgu, yn gofalu am eraill ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u hysgol.

Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion o ran cyflawniad ac ymddygiad, ac maent yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn datblygu'r gweithgareddau gyda rhediad addas. Defnyddiant ystod o brofiadau gwreiddiol i ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn defnyddio dulliau holi amrywiol yn effeithiol iawn er mwyn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o wahanol gyd-destunau dysgu.

Maent yn darparu cefnogaeth lles werthfawr i ddisgyblion, er enghraifft trwy gymryd rhan yng ngweithgareddau wythnosol 'Gwener Gwenu', sy'n cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ymroi'n llawn i'w dysgu.

Mae'r Caffi Clic a Chlonc wythnosol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i'r holl ddisgyblion yn eu tro i ddatblygu eu medrau a chymhwyso medrau bywyd go iawn trwy weithio gydag aelodau'r gymuned, gan gynnwys rhieni'r ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn llunio bwydlenni, coginio bwyd i'w weini, a delio ag arian wrth werthu'r cynnyrch ac yna dadansoddi'r elw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd o'u mannau cychwyn gyda'u medrau, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n ddigon da.

# Argymhellion

**A1 Gwella medrau darllen Cymraeg disgyblion**

**A2 Rhannu arfer orau yr addysgu ar draws yr ysgol**

# Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol y Lawnt |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 212 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 147 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw’n berthnasol) | 35 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23%) | 18.4% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 23.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg yn y cartref | 6.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ebrill 2013 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw’n berthnasol) | 05/05/2014 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2022